Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig
—
Economy, Trade and
Rural Affairs Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi @senedd.cymru
senedd.cymru/ SeneddEconomi
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/ SeneddEconomy
0300 200 6565

Dehenna Davison AS
Gweinidog Lefelu i Fyny
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

11 Mai 2023

Cyllid Datblygu Rhanbarthol Wedi'r UE

Annwyl Dehenna,

Diolch am eich ymateb i wahoddiad fy nghyd-Aelod Darren Millar i roi tystiolaeth i Bwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd, a hynny fel rhan o'n hymchwiliad i'r trefniadau ariannu ar ôl gadael yr UE yng Nghymru. Rwyf bellach wedi ailafael yn fy rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor a chroesawaf eich cynnig i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad y Pwyllgor. Bydd clercod y Pwyllgor yn rhoi peth gwybodaeth i chi am y meysydd penodol y mae gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig ynddynt, a byddem yn ddiolchgar iawn o gael dod i ddeall barn Llywodraeth y DU ar y meysydd hynny.

Er y croesewir tystiolaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth y DU i'r ymchwiliad, byddai'n well gennym wrth gwrs pe bai un o Weinidogion Llywodraeth y DU yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor yn fyw. Fel y gwyddoch, Llywodraeth y DU sydd â'r rheolaeth yn y pen draw dros y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro, ac mae'n hanfodol ein bod yn gallu craffu ar ei phenderfyniadau a gofyn cwestiynau amdanynt. Mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn hanfodol bod cyfle i graffu ar un o Weinidogion Llywodraeth y DU, o'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn ddelfrydol, er mwyn sicrhau effeithiolrwydd yr ymchwiliad hwn. Felly, hoffem fod mor hyblyg â phosibl er mwyn sicrhau y gallwch chi neu un o'ch cydweithwyr fod yn bresennol, a byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi rhai dyddiadau ac amseroedd cyfleus inni fel y gall y Pwyllgor eu hystyried.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg